

Cytundebau Rhyngwladol

Y cytundebau a ystyriwyd ar 29
Tachwedd 2021

Rhagfyr 2021



1. Cefndir

- 1.** Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am graffu ar gytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.
- 2.** Gall cytundebau rhyngwladol a lofnodwyd gan Lywodraeth y DU ymdrin â materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig neu faterion sydd â goblygiadau polisi pwysig i Gymru.
- 3.** Bydd y Pwyllgor yn ystyried effaith cytundebau rhyngwladol a osodwyd yn Senedd y DU ar Gymru o dan y broses a sefydlwyd gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010. Mae'n darparu cyfnod craffu cychwynnol o 21 diwrnod.
- 4.** Mae ein hystyriaeth o gytundeb rhyngwladol yn ystyried:
 - a yw'n ymgysylltu â chymhwysedd y Senedd; a/neu
 - a oes goblygiadau polisi posibl i Gymru.
- 5.** Ar 29 Tachwedd 2021, fe wnaethom ni ystyried tri chytundeb rhyngwladol a osodwyd yn ddiweddar yn Senedd y DU.¹
- 6.** Dyma'r cytundebau a ystyriwyd gennym:
 - Y Sefydliad Llafur Rhyngwladol: Confensiwn Trais ac Aflonyddu 2019 (Rhif 190)
 - Y Confensiwn Rhyngwladol ar gyfer Rheoli Dŵr Balast a Gwaddod Llongau
- 7.** Cytunwyd i gymryd camau pellach ar un o'r cytundebau a nodi'r llall er gwybodaeth. Nodir manylion pellach am bob un o'r cytundebau isod.

¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 29 Tachwedd 2021

2. Y cytundebau sydd angen camau pellach

Y Sefydliad Llafur Rhyngwladol: Confensiwn Trais ac Aflonyddu 2019 (Rhif 190)

8. Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 15 Tachwedd 2021. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, yw 15 Rhagfyr 2021.
9. Amcan y cytundeb yw dileu trais ac aflonyddu yn y byd gwaith. Y Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO) yw asiantaeth y Cenhedloedd Unedig sy'n gosod safonau llafur, yn datblygu polisiau ac yn dyfeisio rhaglenni i hyrwyddo gwaith gweddus i bob menyw a dyn. Mae'n dwyn ynghyd lywodraethau, cyflogwyr a gweithwyr o 187 o aelod-wladwriaethau. Mae Llywodraeth y DU yn ceisio cadarnhau'r Confensiwn, y gwnaeth ei negodi a'i fabwysiadu ym mis Mehefin 2019, a hynny er mwyn dangos arweinyddiaeth ryngwladol barhaus ar y mater pwysig hwn.
10. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y Confensiwn yn ymdrin â meysydd a gedwir yn ôl a meysydd datganoledig fel ei gilydd, ac yn rhestru meysydd sydd wedi'u datganoli i Ogledd Iwerddon a'r Alban. Mae'n egluro sut yr aeth Llywodraeth y DU ati i ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig ar ddrafftio'r Confensiwn a pharatoi'r Memorandwm, ond nid yw'n cyfeirio'n benodol at Gymru.
11. Hefyd, ymgynghorwyd â Chyngres yr Undebau Llafur, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain a sefydliadau anllywodraethol, sy'n cytuno'n gryf y dylai'r ymuno ag ef.
12. Mae'r cytundeb hwn yn ymwneud â thrais ac aflonyddu yn y byd gwaith, sy'n faterion a gedwir yn ôl sydd y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006) yn darparu na all darpariaeth un o Ddeddfau'r Senedd wneud addasiadau i gategori rhestredig, na chreu trosedd mewn categori rhestredig. Mae'r categorïau troseddau rhestredig yn cynnwys troseddau yn erbyn yr unigolyn (gan gynnwys troseddau sy'n ymwneud â thrais neu fygythiadau o drais) a throeddau rhywiol. Mae materion cyflogaeth hefyd yn rhai a gedwir yn ôl, yn ddarostyngedig i eithriadau cyfyngedig yn Atodlen 7A i Ddeddf 2006.
13. Gwnaethom nodi'r cytundeb a chytuno i'w dynnu at sylw'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

3. Cytundebau a nodwyd er gwybodaeth

Y Confensiwn Rhyngwladol ar gyfer Rheoli Dŵr Balast a Gwaddod Llongau

14. Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 8 Tachwedd 2021. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, yw 13 Rhagfyr 2021.
15. Amcan y cytundeb hwn yw atal, lleihau ac, yn y pen draw, dileu trosglwyddiad organebau a phathogenau dyfrol niweidiol i atal ymlediad rhywogaethau anfredorol goresgynnol drwy reoli ac ymdrin â dŵr balast a gwaddod llongau. Mae'r Confensiwn yn gymwys i longau sy'n gweithredu'n rhyngwladol yn nyfroedd 88 o bartïon i'r Confensiwn.
16. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi, gan fod llongau yn fater a gedwir yn ôl, na wnaeth Llywodraeth y DU ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig ynglŷn â'i ddrafftio. Mae'n nodi yr ymgynghorwyd â'r llywodraethau datganoledig ar y Rheoliadau drafft, yr Hysbysiad Llongau Masnach a'r Hysbysiad Canllawiau Morol a luniwyd i roi'r Confensiwn ar waith.
17. Mae'r cytundeb hwn ymwneud â llongau, sy'n fater a gedwir yn ôl, fel y darperir ym mharagraff 120 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006. Felly mae'r cytundeb hwn yn ymwneud â mater sydd y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
18. Nodwyd y cytundeb er gwybodaeth yn unig.

4. Gohebiaeth yn ymwneud â chytundebau a ystyriwyd yn flaenorol

19. Yn dilyn ein cyfarfod ar 1 Tachwedd 2021, cytunwyd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am wybodaeth bellach ynghylch y DU/Swistir: Confensiwn ar gydgyssylltu nawdd cymdeithasol, ac yn benodol:

- asesiad Llywodraeth Cymru o oblygiadau'r cytundeb ar gymhwysedd datganoledig;
- a yw Llywodraeth Cymru yn cytuno ag asesiad Llywodraeth y DU o faterion a gedwir a materion datganoledig yn y cytundeb;
- a fydd Llywodraeth Cymru yn cael ei chynrychioli yn y mecanweithiau llywodraethu newydd rhwng y DU a'r Swistir a grëwyd gan y cytundeb, yn arbennig mewn

perthynas â phresenoldeb yn y Cydbwyllgor Gweinyddol pan drafodir materion datganoledig;

- pa gynlluniau sydd ar waith i Lywodraeth Cymru weithredu'r cytundeb, os o gwbl, gan gynnwys amserlenni;
- a yw Llywodraeth Cymru yn fodlon â lefel ac amllder yr ymgynghori â Llywodraeth y DU wrth negodi'r cytundeb hwn, fel y disgrifir yn y Memorandwm Esboniadol.

20. Fe wnaeth y Prif Weinidog ymateb ar 23 Tachwedd 2021. Yn ogystal ag ymateb i'n cwestiynau, fe wnaeth y Prif Weinidog ein hysbysu hefyd fod Llywodraeth Cymru o'r farn "bod cytundebau rhyngwladol yn cael eu cadw i Lywodraeth y DU a'i bod yn ofynnol i'r Gweinyddiaethau Datganoledig eu gweithredu a'u parchu ni waeth beth fo'r goblygiadau o ran cymhwysedd datganoledig neu i gyrff Cymru".

21. Fe wnaethom ni ystyried yr ymateb hwn yn ein cyfarfod ar 29 Tachwedd 2021 a chytunwyd i'w rannu gyda'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.